| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **DYDDIAD** | 17 Chwefror 2022 |
| **TEITL** | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad ar y gwaith paratoi ar gyfer Etholiad Llywodraeth Leol, Mai 2022 |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth. |
| **AWDUR** | Annes Sion<br>Arweinydd Tîm Democratiaeth |

RHAGAIR

1. Rydym oll yn ymwybodol fod etholiadau Llywodraeth Leol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2022. Yn sgil hyn mae cryn waith paratoi – gennych chi fel aelodau etholedig, gan y grwpiau gwleidyddol, yn ogystal a gennym ni fel swyddogion.

2. Fel y gwyddoch mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn, ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad o'r cynlluniau drafft sydd eisoes mewn lle a'r gwaith pellach sydd i'w gyflawni dros y misoedd nesaf i baratoi at yr Etholiad ym mis Mai a'r cyfnod yn syth ar ôl hynny.

3. <u>Sesiynau i ddarpar ymgeiswyr</u>
   Rydym eisoes wedi cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth fel rhan o'r paratoadau ar gyfer yr etholiad a byddwn yn ail redeg yr ymgyrch ddiwedd mis Chwefror. Yn ogystal byddwn yn cynnal 2 sesiwn ar gyfer darpar ymgeiswyr a fydd yn gyfle iddynt dderbyn gwybodaeth am y broses enwebu ynghyd a derbyn gwybodaeth am rôl Cynghorydd. Bydd y sesiynau yma sy'n cael eu cynnal ddiwedd mis Chwefror yn anffurfiol ac yn gyfle i unrhyw un sydd â diddordeb ofyn cwestiynau. Bydd cyfle i'r Is-Grŵp Etholiad roi eu barn am y wybodaeth fydd yn cael ei rannu gyda'r darpar ymgeiswyr cyn i'r sesiynau gael eu cynnal.

4. <u>Diwrnod Croeso</u>
   Mae'r trefniadau cychwynnol wedi eu gwneud i dynnu amserlen at ei gilydd ar gyfer diwrnod Croeso Cynghorwyr. Mae'r trefniadau drafft wedi eu llunio yn sgil y sylwadau dderbyniwyd gennych chi fel Cynghorwyr yn dilyn dyddiau Croeso gynhaliwyd yn 2017. Mae'r amserlen yn fras i'w gweld isod:

   > Bore: Croeso a chyflwyniadau am y Cyngor, Cefnogaeth i Gynghorwyr ac esboniad o drefniadau Democratiaeth y Cyngor
   >
   > Prynhawn: Sesiynau mewn grwpiau llai am y cod ymddygiad ac arwyddo i dderbyn y swydd, tynnu llun a cyfarpar technoleg gwybodaeth.

   Ar hyn o bryd bwriedir cynnal y ddyddiau croesawu yn yr wythnos sydd yn dilyn yr etholiad. Byddant yn cael eu rhaglennu dros ddeuddydd fel bod modd rhannu yr aelodau i gyd-fynd a rheoliadau covid.

5. Mae rhaglen ddrafft o anwytho pellach a hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn gyntaf i'w gweld yn **Atodiad 1**.

6. <u>Is-Grŵp Etholiad</u>

Llyfryn Aelodau

Yn ôl yn 2017 a penderfynwyd peidio rhoi pecyn gwybodaeth i Gynghorwyr yn ystod y dyddiau anwytho er mwyn cryfhau'r neges fod Cyngor Gwynedd yn Gyngor sy'n anelu at fod yn ddi bapur. Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac yn parhau i anelu at fod yn ddi bapur, fodd bynnag, wrth adlewyrchu ar y gwersi a ddysgwyd o 2017 a gwrando ar sylwadau Cynghorwyr credwn fod budd mewn creu llyfryn cryno i Aelodau ar ddechrau'r tymor. Math o gyfeirlyfr sydd dan sylw, yn cyflwyno gwybodaeth angenrheidiol am y Cyngor, Pwyllgorau, cyflogau a chysylltiadau defnyddiol, gan gyfeirio'r Cynghorwyr at lle i gael hyd i mwy o wybodaeth.

7. Datblygwyd drafft o'r llyfryn dros y misoedd diwethaf, a chafwyd trafodaeth ar y cynnwys yn yr Is-Grŵp Etholiad. Bellach mae addasiadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth wedi eu ymgorffori yn y llyfryn, ac fe fydd yn cael ei rannu i'r holl aelodau yn y dyddiau Croeso.

8. Eitemau Is-Grŵp i'r dyfodol

Dros y misoedd nesaf bydd yr Is-Grŵp yn parhau i gyfarfod i drafod rhai o'r materion sydd i'w gweld isod:

- Sleidiau i'r sesiynau darpar ymgeiswyr
- Tudalen Croeso i'r Mewnrwyd Aelodau ar gyfer y cyfnod yn syth yn dilyn yr etholiad
- Unrhyw elfen arall o'r gwaith paratoi ble rydym yn teimlo fod angen mewnbwn Cynghorwyr.

**9. PENDERFYNIAD A GEISIR**

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**